


# Crynodeb o'r Ymgynghoriad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014



## Rhan 10

Gwasanaethau Eirioli




**Rheolau a gwybodaeth am sut i gydymffurfio â'r Ddeddf**




**Fersiwn Hawdd ei Darllen**




# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014




Mae'r Ddeddf newydd yn ymwneud â gofal cymdeithasol yng Nghymru.




Daw'r Ddeddf i rym ym mis Ebrill 2016.




Yn ogystal â'r Ddeddf, ceir:




- rheolau. Gelwir y rheolau yn **Rheoliadau**.




- gwybodaeth am sut i gydymffurfio â'r gyfraith, sef **Codau Ymarfer** neu **Ganllawiau Statudol.**




# Sut y gwnaethom y gwaith hwn




Gwnaethom wrando ar arbenigwyr o bob cwr o Gymru.




Yna, gwnaethom nodi ein syniadau.



Nawr rydym am wybod beth yw barn pawb.




Mae sawl Rhan i'r Ddeddf newydd. Mae pob Rhan yn ymwneud â rhywbeth gwahanol.




Rhwng mis Mai a mis Gorffennaf, rydym yn gofyn i bawb am eu barn ar y rheolau ar gyfer:






**Rhan 4**

Cyfrannu at Daliadau Uniongyrchol a dewis cartref gofal

**a**

**Rhan 5**

Talu am ofal a chymorth






**Rhan 6**

Plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal




## Rhan 9

Cydweithio







## Rhan 10

Gwasanaethau Eirioli






# Rhan 10



Mae Rhan 10 yn ymwneud â Gwasanaethau Eirioli.




# Rhan 10

# Sut i gydymffurfio â'r Ddeddf newydd



Mae Rhan 10 yn nodi:

- Pryd y dylai cynghorau lleol ystyried a oes angen gwasanaethau eirioli ar rywun



- Pethau sy'n golygu y gall fod angen gwasanaethau eirioli ar rywun

Gall gwasanaethau eirioli sicrhau'r canlynol:



- bod gwasanaethau'n ystyried beth sydd o fudd i'r unigolyn, yn hytrach nag i i'r gwasanaeth



- bod pobl yn gallu lleisio eu barn a'u bod yn cael eu clywed



- bod gan bobl reolaeth dros eu bywydau



Gall gwasanaethau eirioli hefyd wneud y canlynol:



- helpu pobl i fyw bywydau gwell



- sicrhau bod rhywun yn cael budd o'i ofal a'i gymorth




- cadw pobl yn ddiogel rhag niwed neu gamdriniaeth




Mae'r rheolau o ran y Ddeddf newydd eisoes yn nodi:



- bod yn rhaid i gynghorau lleol wrando ar yr hyn y mae pobl am ei gael



- bod yn rhaid i gynghorau lleol gofio ei bod yn bwysig helpu rhywun i wneud dewisiadau am ei fywyd




- bod yn rhaid i gynghorau lleol sicrhau bod pobl yn gallu bod yn rhan o'u gofal a'u cymorth eu hunain




Mae rheolau Rhan 10 yn ychwanegu at hyn.



Mae Rhan 10 yn ymwneud â gwasanaethau eirioli i oedolion, plant a gofalwyr.



Mae Rhan 10 yn nodi sut i wybod pan fydd angen gwasanaethau eirioli ar rywun.




Mae Rhan 10 yn nodi pryd y dylai cynghorau lleol drefnu gwasanaethau eirioli ar gyfer rhywun.




Mae Rhan 10 yn nodi'r canlynol:



- Mae gwasanaethau eirioli yn dda



- Mae mathau gwahanol o wasanaethau eirioli



- Pryd i gadarnhau a oes angen gwasanaethau eirioli ar rywun



- Pam y gall fod angen gwasanaethau eirioli ar bobl



- Pryd y dylai cynghorau lleol drefnu gwasanaethau eirioli annibynnol



- Pryd **na** ddylai rhywun fod yn eiriolwr




- Sut i ddweud wrth bobl am wasanaethau eirioli



Mae Rhan 10 yn cynnwys gwasanaethau eirioli i'r teulu, ffrindiau a chefnogwyr yn ogystal â gweithwyr proffesiynol.